



**Cofnodion Iechyd Cyhoeddus Cymru heb eu cadarnhau
Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd
Cyfarfod Cyhoeddus, 5 Rhagfyr, 2023, 09:30
Cynhaliwyd yn 3.2 CQ2 a thrwy Microsoft Teams**

Yn bresennol:		
Sian Griffiths	(SG)	Cadeirydd y Pwyllgor a Chyfarwyddwr Anweithredol (Iechyd y Cyhoedd)
Diane Crone	(DC)	Cyfarwyddwr Anweithredol (y Brifysgol)
Nick Elliott	(NE)	Cyfarwyddwr Anweithredol (Data a Digidol) (Gadawodd y cyfarfod am 11:58)
Yn Bresennol:		
Sumina Azam	(SA)	Cyfarwyddwr Polisi Cenedlaethol ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd
Iain Bell	(IB)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd
Fliss Bennee	(FB)	Pennaeth Data (ar gyfer eitem 6)
Julie Bishop	(JB)	Cyfarwyddwr Gwella Iechyd (ar gyfer eitem 4.1)
Liz Blayney	(LB)	Dirprwy Ysgrifennydd y Bwrdd a Rheolwr Llywodraethu'r Bwrdd
Alisha Davies	(AD)	Pennaeth Ymchwil a Gwerthuso (Ar gyfer eitem 5.2.1)
Helen Erswell	(HE)	Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Tîm Gwella Iechyd (Ar gyfer eitem 4.1)
Rebecca Hill	(RH)	Uwch Arbenigwr Iechyd y Cyhoedd, Polisi ac Iechyd Rhyngwladol, Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd
Dafydd James	(DJ)	Pennaeth Profiad a Gwasanaethau Digidol (Ar gyfer eitem 5.1)
Elen De Lacy	(EDL)	Rheolwr Ymchwil a Datblygu Iechyd y Cyhoedd (Ar gyfer eitem 5.2.2.)
Rick Lines	(RL)	Pennaeth Rhaglen Camddefnyddio Sylweddau (Ar gyfer eitem 4.1)
Kirsty Little	(KL)	Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd, Gwybodaeth Iechyd, Cyfarwyddiaeth Gwybodaeth (Ar gyfer eitem 4.)
Jim McManus	(JM)	Cyfarwyddwr Cenedlaethol Iechyd a Llesiant
Rebecca Masters	(RM)	Ymgynghorydd Iechyd y Cyhoedd. (Ar gyfer eitem 4.2.)
Louisa Nolan	(LN)	Pennaeth Gwyddor Data



Paul Veysey	(PV)	Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd
Ymddiheuriadau		
Tracey Cooper	(TC)	Prif Weithredwr
Stuart Silcox	(SS)	Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Integredig
Jan Williams	(JW)	Cadeirydd
<i>Dechreuodd y cyfarfod am 10:00</i>		
KRIC 1/2023.12.05 Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau		
Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod gan groesawu pawb a oedd yn bresennol a chroesawu JM i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor. Nododd y Pwyllgor fod y cyfarfod yn cael ei recordio i sicrhau cywirdeb y cofnodion ac y byddai'r recordiad yn cael ei ddileu unwaith y cytunwyd ar y cofnodion yn y cyfarfod canlynol ym mis Mawrth 2024. Nododd y Pwyllgor yr ymddiheuriadau.		
KRIC 2/2023.12.05 Datganiadau o Fuddiannau		
Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau'n ychwanegol i'r rhai a ddatganwyd eisoes ar y Gofrestr Datganiadau o Fuddiannau.		
KRIC 3/2023.12.05 Cofnodion, Cofnod Gweithredu a Materion sy'n Codi		
Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Medi 2023, ac fe'u cymeradwyodd. Ystyriodd y Pwyllgor y camau gweithredu agored ar y cofnod gweithredu a nododd fod y lliw coch yn dangos cam gweithredu a oedd wedi mynd heibio'r dyddiad gweithredu penodedig, neu gam gweithredu oedd angen ymateb iddo neu ddiwygio'r dyddiad targed y cytunwyd arno. Cymeradwyodd y Pwyllgor y penderfyniad i gau pedwar cam gweithredu ar y Cofnod Gweithredu. Cymeradwyodd hefyd i ymestyn dyddiad targed gweithredu tri cham gweithredu ar y Cofnod Gweithredu i 5 Mawrth 2024 er mwyn caniatáu i waith terfynol gael ei gwblhau ar y camau gweithredu hyn. Nid oedd unrhyw faterion yn codi.		
KRIC 4/2023.12.05 Archwiliadau Dwfn		
KRIC 4.1/2023.12.05 Ymddygiad Caethiwus ac Iechyd y Cyhoedd		
Cyflwynodd JM yr Archwiliad Dwfn ar ymddygiadau caethiwus, a oedd yn canolbwyntio ar ddefnyddio cyffuriau a gamblo. Nododd fod y Pwyllgor eisoes wedi ystyried yr ymddygiadau caethiwus yn ymwneud ag alcohol a thybaco. Roedd gan y Sefydliad strategaeth defnyddio tybaco a chyffuriau anghyfreithlon ar waith eisoes ac awgrymodd JM y dylai'r Sefydliad hefyd edrych ar ddatblygu		



strategaeth dibyniaeth ar gyffuriau. Byddai angen rhaglen ymchwil i ddatblygu strategaeth o'r fath, a byddai'r Pwyllgor hwn yn darparu trosolwg ar gyfer y gwaith hwnnw. Nodwyd, o ystyried natur drawsbynciol caethiwed i gyffuriau, yn enwedig cysylltiadau â datblygiad polisi'r system cyfiawnder troseddol yn y maes hwn sydd o fewn awdurdodaeth Llywodraeth y DU yn San Steffan, y byddai angen i unrhyw ymateb strategol yng Nghymru ystyried hynny.

Rhoddodd JB, HE ac RL gyflwyniad i'r Pwyllgor a oedd yn tynnu sylw at ddull iechyd y cyhoedd o atal ymddygiadau sy'n niweidio iechyd.

Roedd y cronfeydd data a gynhelir gan y Sefydliad i gofnodi data lleihau niwed yn cynnwys - WEDINOS (rhaglen lleihau niwed a thueddiadau/gwirio) firysau a gludir yn y gwaed a data plismona.

O ran caethiwed gamblo, nodwyd bod gwaith yn parhau i adeiladu proffil data gamblo ar y cyd â Phrifysgol Abertawe i dargedu gwaith atal ac i sicrhau bod gwasanaethau triniaeth yn cael eu darparu. Byddai gweithio mewn partneriaeth â thimau iechyd cyhoeddus lleol a Byrddau Iechyd rhanbarthol yn sicrhau darpariaeth briodol ar lefel gwasanaeth.

Roedd meysydd i'w datblygu wedi'u nodi ac roedd trafodaethau'n parhau gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid academiaidd ar gyfer cyfleoedd ymchwil a thriniaeth mewn gwaith dibyniaeth gan gynnwys dealltwriaeth well o'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer gweithredu ar benderfynyddion ac adolygiadau systematig o ffactorau risg wedi nodi cyfle i weithio mewn partneriaeth â grwpiau ymchwil academiaidd a gweithio gyda'r Rhaglen Iechyd Cynhwysiant Clefydau Trosglwyddadwy i fynd i'r afael â phoblogaethau i'w targedu.

Hysbysodd HE y Pwyllgor y byddai datblygu a deall dulliau i gynyddu ffactorau amddiffynnol a chasglu a dehongli data a oedd yn amlygu'r grwpiau mwyaf mewn perygl yn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r boblogaeth. Byddai hyn yn gofyn am ddull iechyd y Cyhoedd traws-sefydliadol yn y DU.

Cadarnhawyd bod systemau monitro a gwerthuso ar waith i fonitro effeithiolrwydd casglu data ar gyfer rhaglenni cysylltiedig â chyffuriau a bod fframwaith gwerthuso ar gyfer atal a thrin gamblo yn cael ei ddatblygu.

Tynnwyd sylw at ddwy astudiaeth achos o ddull iechyd Cyhoeddus Cymru:

- Cyd-ddefnyddio canabis a thybaco, mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerfaddon.
- Datblygu dyfeisiau mewnanadlu mwy diogel wedi'u hanelu at ddefnyddwyr crac cocên, a ddeilliodd o bryderon a nodwyd gan ddarparwyr gwasanaethau ledled Cymru, yn dangos cysylltiadau ag arferion ysmygu cymunedol. Nodwyd bod disgwyl i raglen beilot gael ei chymeradwyo yn gynnar yn 2024.

Trafododd y Pwyllgor:

- Pa un a oedd yr Uned Gwyddor Ymddygiad wedi bod yn rhan o'r gwaith hwn. Dywedwyd wrth y pwyllgor y byddai'r Uned honno'n cymryd rhan wrth i'r amrywiol raglenni ddatblygu.



- Sut roedd y timau'n cadw i fyny â'r ymyriadau digidol a oedd yn cael eu hyrwyddo, yn arbennig rhai gan y diwydiant gamblo. Rhoddwyd sicrwydd i'r Pwyllgor fod hwn yn faes sy'n peri pryder yr oedd y timau'n ei fonitro a bod hwn yn faes o sensitifrwydd masnachol gyda gwrthdaro buddiannau amlwg.
- Nodwyd y byddai cyflwyno ardoll statudol ar elw yn y diwydiant gamblo yn arwain at newid mewn ffyrdd o weithio rhwng y diwydiant a sectorau eraill.
- Dywedwyd bod y nifer fawr o apiau cysylltiedig ag iechyd sydd eisoes ar gael o siopau apiau lluosog yn atal cynnal gwerthusiad ystyrion o'r apiau. Nodwyd bod y Sefydliad ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru yn gweithio ar hyn o bryd i ddatblygu proses achredu ar gyfer diweddariadau i ap GIG Cymru yn y dyfodol er mwyn caniatáu cynnwys dolenni gan gwmnïau masnachol ar yr ap.
- Holwyd a oedd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn ystyried ei hun yn arweinydd systemau neu'n ddylanwadwr systemau ym maes dibyniaeth? A beth arall y dylid ei wneud i ddatblygu gwaith yn y maes hwn? Cytunwyd bod angen gwaith traws-Gyfarwyddiaeth agosach a byddai hynny'n cael ei ddwyn ymlaen i adrodd yn ôl.
- Trafodwyd pa un a ddilynwyd un dull o ymdrin â phob math o ddibyniaeth a niwed a sut y byddai dull Cyfarwyddiaeth gyfan yn hwyluso'r gwaith ar draws y Sefydliad.
- Awgrymwyd y dylid datblygu dull ataliol ar draws dibyniaethau ac y byddai hynny'n cael ei ystyried ymhellach ac ystyriaeth yn cael ei rhoi i ddatblygu strategaeth.

Diolchodd SG i JM, a'r tîm am Archwiliad Dwfn cynhwysfawr a phellgyrhaeddol o'r ymddygiadau caethiwus o gamddefnyddio cyffuriau a gamblo. Nododd hefyd fod JM ac IB wedi cytuno i gydweithio ymhellach a datblygu'r systemau ar gyfer monitro ymddygiadau caethiwus. Gofynnodd i'r Pwyllgor anfon cwestiynau ac awgrymiadau ynghylch y pedwar maes, sef defnyddio cyffuriau, gamblo, alcohol a thybaco at IB a JM.

Gofynnodd SG i IB a JM ddod ag adroddiad cynnydd ar ddata sydd ei angen i ddatblygu dull iechyd y cyhoedd o atal ymddygiadau sy'n niweidio iechyd i'r Pwyllgor mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Cam Gweithredu: JM/IB

Egwyl

KRIC 4.2/2023.12.05

Data, dadansoddi ac ymchwil i gefnogi'r flaenoriaeth strategol o effeithiau newid yn yr hinsawdd ar iechyd y cyhoedd

Cyflwynodd SA Archwiliad Dwfn i'r Pwyllgor yn ymwneud â 'data, dadansoddi ac ymchwil i gefnogi'r flaenoriaeth strategol o effeithiau newid yn yr hinsawdd ar iechyd y cyhoedd. Nodwyd bod y flaenoriaeth strategol wedi cael effaith ar draws y Sefydliad cyfan a gofynnodd SA am adborth gan y Pwyllgor i ddarparu ystod lawn o safbwyntiau i symud y gwaith yn ei flaen.



Roedd y cyflwyniad yn cynnwys:

- Y cynllun gweithredu a ddisgrifiwyd yn y cyflwyniad yn deillio o Gymdeithas Ryngwladol Sefydliadau Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (IANPHI), a'i nod o amddiffyn, hyrwyddo ac addysgu, i ymateb a gweithredu i fonitro a gwerthuso newidiadau oherwydd newid yn yr hinsawdd.
- Nodwyd bod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cefnogi uchelgais Llywodraeth Cymru o gyflawni GIG Cymru sero net erbyn 2030
- Arweiniodd y datganiad o argyfwng hinsawdd gan Lywodraeth Cymru yn 2019 at adroddiad a gyhoeddwyd gan y Sefydliad ym mis Gorffennaf 2023 yn dwyn y teitl "Newid yn yr Hinsawdd yng Nghymru: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd". Mae'r adroddiad yn disgrifio gwendidau pobl a chymunedau, yn ogystal â bygythiad datblygiad pathogenau, a'r angen i'r system gofal iechyd addasu i'r newidiadau hyn. Nodwyd bod newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar ystod eang o glefydau a llesiant poblogaethau ledled Cymru. Mae mesur hyn yn heriol ond yn hanfodol.
- Dywedwyd bod yr Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd yn Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi mwy nag ugain o gyhoeddiadau ym maes newid yn yr hinsawdd ar y cyd â llawer o Gyfarwyddiaethau Iechyd Cyhoeddus Cymru (Gwybodaeth ac Ymchwil Iechyd y Cyhoedd, Iechyd a Llesiant, Diogelu Iechyd a Sgrinio) a chydweithwyr eraill.
- Dylanwadwyd ar ddatblygiad Strategaeth Hirdymor Iechyd Cyhoeddus Cymru gan adroddiadau ar yr effeithiau ar y boblogaeth ac mae Map Trywydd/Ffocws ar gyfer y Dyfodol sy'n dangos cymhlethdod y pwnc wedi'i ddatblygu.
- Cynigiwyd cysylltiad rhwng newid yn yr hinsawdd ac economeg iechyd. Nodwyd bod gan Iechyd Cyhoeddus yr Alban ddull diddorol a chynigiwyd y dylid ceisio cydweithredu.
- Nodwyd bod ystadegau Economeg Iechyd yn amcangyfrif, ar gyfartaledd, bod pob £1 a fuddsoddwyd, wedi arwain at enillion o £14 yn y system gofal iechyd ehangach, ac awgrymwyd y gellid gweld elw tebyg ar gyfer mesurau addasu a lliniaru.

Sefydlwyd yr Hwb Iechyd a Chynaliadwyedd gan SA yn 2016 ac mae bellach yn gweithio ar draws y gwledydd cartref ac yn rhyngwladol i rannu adnoddau a gwybodaeth am newid yn yr hinsawdd. Nodwyd bod yr Hwb yn gweithio gyda phob Cyfarwyddiaeth yn y Sefydliad ac y byddai'n croesawu adborth gan y Pwyllgor hwn:

- ar flaenoriaethau ymchwil;
- sut y gellid datblygu a chryfhau'r gwaith; ac
- ynghylch a yw'r Pwyllgor yn meddwl bod meysydd gwaith allweddol ar goll o'r agenda ar hyn o bryd.

Bu'r Pwyllgor yn trafod yn helaeth y ffin a oedd yn bodoli rhwng helpu'r boblogaeth i ymdopi â'r effeithiau a ddaw yn sgil newid yn yr hinsawdd a phwy ddylai gymryd y



cyfrifoldeb am reoli a lleihau'r effaith ar y blaned. Cydnabuwyd bod angen i'r Sefydliad gael ei weld yn gwneud cymaint â phosibl i fod yn garbon niwtral.

Awgrymodd y Pwyllgor mai rôl Iechyd Cyhoeddus Cymru oedd cefnogi partneriaid drwy arweinyddiaeth systemau i ddatblygu strategaethau datgarboneiddio. Trafododd y Pwyllgor hefyd bwysigrwydd arwain drwy esiampl. Cyfeiriwyd at fentrau diweddar ym maes caffael i leihau ôl troed carbon drwy ddefnyddio ffynonellau cynaliadwy ac adolygu'r defnydd o blastigau untro mewn microbioleg, a fyddai'n effeithio ar ôl troed carbon y Sefydliad.

Nododd y Pwyllgor sut yr oedd gwaith yr agenda newid yn yr hinsawdd wedi'i gysylltu ag anghenion penodol cymunedau a chawsant eu calonogi gan ymrwymiad y Sefydliad i fynd i'r afael yn uniongyrchol ag anghenion y cymunedau hynny yr effeithiwyd arnynt yn andwyol oherwydd y newid yn yr hinsawdd.

Diolchodd SG i SA a RM am eu cyflwyniad a gofynnodd i'r Pwyllgor gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith ymchwil trwy gyflwyniad pellach yn y dyfodol.

Cam Gweithredu: SA / RM

KRIC 5/2023.12.05

Diweddariadau ar Strategaethau

KRIC 5.1/2023.12.05

Diweddariad ar Weithredu'r Strategaeth Ddigidol a Data

Cyflwynodd IB y Pwyllgor i'r wybodaeth ddiweddaraf am weithredu'r strategaeth ddigidol a data.

Cyhoeddwyd y Strategaeth Ddigidol a Data ar 4 Hydref ac mae cyfathrebu mewnol ar y gweill i gefnogi'r strategaeth. Nodwyd bod y strategaeth wedi cael ei chroesawu.

Manylwyd ar y cynllun gwaith ar gyfer y cam alffa a'r cam beta o'r adolygiadau o systemau digidol mewnol:

- Amcangyfrifwyd y byddai cam beta y rhaglen sgrinio llygaid diabetig yn rhyddhau 4,000 awr o amser staff trwy awtomeiddio atgyfeiriadau gan feddygon teulu. Nodwyd bod profion wedi'u cynllunio ar gyfer mis Ionawr cyn ei lansio ym mis Chwefror 2024.
- Dywedwyd bod cam Alffa rhaglen ystâd y We yn eang, ac wedi cynnwys cydweithio ar draws y Sefydliad, roedd yn cynnwys yr holl swyddogaethau busnes ac yn defnyddio asesiad 'addas i'r diben'. Nodwyd bod y cam wedi amlygu materion yn ymwneud ag hygyrchedd a safonau'r we o ran defnyddio'r Gymraeg a sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.
- Cadarnhawyd bod y Gwasanaethau Sgrinio yn symud o system a brynwyd i mewn i ddefnyddio system fewnol ar gyfer dethol carfanau ar gyfer sgrinio'r fron. Byddai hyn yn galluogi'r gwasanaeth i addasu'n well i'w anghenion. Nodwyd bod cynlluniau i brofi system debyg ar gyfer sgrinio llygaid diabetig wedi'i chynllunio ym mis Ionawr cyn ei lansio ym mis Chwefror.
- Roedd gwaith gyda Chofrestrau yn cynnwys cam alffa a gwblhawyd yn ddiweddar ar wiliadwriaeth hunanladdiad a fyddai'n cael ei ddatblygu cyn gynted â phosibl.



- Cadarnhawyd bod cam darganfod wedi dechrau yn ddiweddar, yn seiliedig ar Tarian, ac y byddai'n edrych ar agweddau ehangach Diogelu Iechyd.

Dywedodd IB wrth y pwyllgor y byddai'n cyflwyno papur llawn i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ym mis Mawrth i roi sicrwydd ynghylch y cynnydd o ran gweithredu'r Strategaeth Ddigidol a Data.

Cam Gweithredu: IB, DJ

Diolchodd SG i IB a DJ.

Gofynnodd y Pwyllgor a allai'r data o'r Gofrestr Gwylidwriaeth Hunanladdiad nodi achosion ar y gofrestr oedd yn nodi bod hapchwarae yn gyfrannwr posibl. Byddai defnyddio data'r Crwner a data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn ffynonellau ar gyfer y wybodaeth hon ond credwyd ei bod yn annhebygol o fod ar gael. Cytunodd IB i ymchwilio ymhellach.

Cam Gweithredu: IB

Gofynnodd y Pwyllgor a oedd cynlluniau i gyhoeddi fersiwn gyhoeddus o'r Strategaeth neu fersiwn fewnol ar gyfer staff yn unig o'r strategaeth. Awgrymodd y Pwyllgor y gellid defnyddio adran 2 o'r Strategaeth fel crynodeb o'r Strategaeth at ddefnydd y cyhoedd.

Gofynnodd y Pwyllgor am gynlluniau i edrych ar fodelau amgen ar gyfer sgrinio llygaid digidol a oedd yn fwy hygyrch i bobl sy'n byw gryn bellter o glinigau safle sefydlog. Dywedwyd wrth y Pwyllgor fod y defnydd o ffonau i gipio delweddau retinol i'w hanfon yn ddiogel at y Gwasanaeth Sgrinio Llygaid Diabetig wedi'i gynnwys ar y rhestr o eitemau i'w hystyried yn y Strategaeth yn y dyfodol.

Diolchodd SG i IB a DJ am y diweddariad a nododd y cynllun i gyhoeddi fersiwn cyhoeddus o'r Strategaeth. Dylai hyn gynnwys ystyried cydgysylltu traws-sefydliadol sy'n bodoli eisoes ac sydd ei angen.

Cam Gweithredu: IB

KRIC 5.2/2023.12.05	Diweddariad ar Weithredu'r Strategaeth Ymchwil a Gwerthuso
KRIC 5.2.1 2023.12.05%	Cydraddoldeb ac Ymchwil - Anghydraddoldebau digidol a defnydd yn y dyfodol mewn lleoliadau gofal iechyd

Cyflwynodd AD yr adroddiad Iechyd Digidol a Thegwch i'r Pwyllgor. Hysbysodd y Pwyllgor fod Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi arwain ymchwil i annhegwch iechyd digidol ac wedi gweithio gyda Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar ymchwil yn y maes hwn.

Roedd yr adroddiad yn dogfennu'r ffordd yr oedd y bobl a ymatebodd i'r arolwg yn defnyddio'r rhyngrwyd i gefnogi eu hiechyd. Nodwyd fod y data wedi'u cynnwys ar sleid 4 y cyflwyniad. Dadansoddwyd y data ymhellach i bennu gwahaniaethau a nodwyd mewn ymgysylltu, gyda chanlyniadau nad oeddent yn annisgwyl, sydd i'w gweld ar sleid 5. Nodwyd bod yr ymgysylltiad ymhlith pobl ifanc 16-29 oed yn 87%, a dim ond 24% o bobl dros 70 oed oedd wedi ymgysylltu. Helpodd y canlyniadau gynllun Cynhwysiant



Digidol Llywodraeth Cymru sy'n ffurfio Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru, sy'n cynnwys grwpiau cymunedol a sefydliadau sy'n mynd i'r afael â rhwystrau i allgau digidol ym maes iechyd ac yn y gymdeithas yn gyffredinol.

Nodwyd bod GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi adroddiad ar y 'Defnydd o'r rhyngwrwd a thechnoleg ddigidol i reoli iechyd yng Nghymru: dewisiadau'r gorffennol, y presennol a'r dyfodol'. Roedd y canlyniadau, a ddangosir ar sleid 6, yn dangos fwy o awydd i ddefnyddio'r gofod digidol i gysylltu â'r Gwasanaeth Iechyd a dod o hyd i wybodaeth am iechyd, ond roedd canran is yn awyddus i gael gofal clinigol trwy blatfformau digidol.

Cafodd y cynnydd mewn bwriadau yn y dyfodol ei olrhain yn ôl grwpiau oedran (sleid 7), gyda'r gwahaniaeth mwyaf i'w weld yn y poblogaethau ieuengaf, ni chofnodwyd unrhyw wahaniaeth rhwng y ddau rywedd. Nodwyd cynnydd amlwg hefyd o ran bwriad yn y dyfodol ymhlith y rhai â chyflyrau hirdymor.

Cydnabu Sefydliad Iechyd y Byd yr arbenigedd a oedd yn bodoli o fewn y tîm yn Iechyd Cyhoeddus Cymru ac mae'r tîm wedi gwneud gwaith pellach i Sefydliad Iechyd y Byd, a arweiniodd at gyhoeddi *'Equity with digital health technology within the World Health Organisation's European region: a scoping review.'* Roedd yr adolygiad yn nodi tri maes o allgau digidol: Mynediad, Sgiliau (defnydd) ac Ymgysylltu. Roedd yr adroddiad yn nodi deg maes ecwiti y manylir arnynt ar sleidiau 12, 13 a 14.

Canmolodd y Pwyllgor AD am y gwaith a ddangoswyd yn y cyflwyniad a gofynnodd iddi a ellid dysgu gwersi gan wledydd Ewropeaidd eraill a oedd hefyd ag anghydraddoldebau tebyg i'r rhai a welwyd yng Nghymru. Dywedodd AD fod awydd i rannu a dysgu oddi wrth y gwledydd hyn a chyda nhw, er mwyn helpu i ddeall a mynd i'r afael â'r anghydraddoldebau economaidd-gymdeithasol a'r materion daearyddol sy'n bodoli yng Nghymru. Gellid asesu'r seilwaith a'r offer sydd eu hangen ochr yn ochr â'r posibilrwydd o gyflwyno gwasanaethau a fyddai'n arwain at werthusiad gwell o'r effeithiau ar wasanaethau, a chanlyniadau cleifion.

Cytunodd y Pwyllgor fod y gwaith yn amlygu'r angen i ddod â'r gwersi a ddysgwyd yn ôl i Gymru i'w cymhwyso. Cytunodd IB, gan nodi bod datrysiadau digidol yn aml yn fwy cost effeithiol nag ymyriadau traddodiadol, er eu bod yn cyflwyno heriau o ran cyrraedd y boblogaeth gyfan.

Rhoddodd y cynnydd sy'n cael ei wneud ar y gwaith ar anghydraddoldebau digidol a defnydd yn y dyfodol mewn lleoliadau gofal iechyd **sicrwydd** i'r bwrdd.

KRIC 5.2.2
2023.12.05%

Blaenoriaethau ymchwil

Cyflwynodd IB y papur Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil a Gwerthuso 2024 yn dogfennu meysydd ymchwil a fyddai'n hanfodol i rôl y Sefydliad i gyflawni ei strategaeth hirdymor.

Dywedodd EDL wrth y Pwyllgor y byddai'r ddogfen yn cael ei diweddarau'n rheolaidd i adlewyrchu amgylchiadau newidiol yn y byd, er enghraifft cynhesu byd-eang a chostau



byw. Roedd hyn yn dangos bod y Sefydliad yn rhagweithiol ac yn uniaethu ag anghenion y boblogaeth yr oedd yn ei gwasanaethu. Gofynnodd am fewnbwn gan y Pwyllgor ar feysydd gwaith y dylid eu cynnwys yn yr adroddiad cyn iddo gael ei ddiweddarau.

Rhoddodd y Pwyllgor **ystyriaeth i'r** papur a chytunwyd i roi sylwadau pellach ar y Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil. **Nododd** y pwyllgor y byddai'r Tîm Gweithredol Busnes yn penderfynu'n derfynol ar y meysydd o ddiddordeb ymchwil yn dilyn trafodaeth bellach yn gynnar yn y Flwyddyn Newydd ac yna'n cyhoeddi'r ddogfen.

KRIC 6/2023.12.05

Risg

Derbyniodd y Pwyllgor yr adroddiad ar Risg Corfforaethol . Dywedodd IB wrth y Pwyllgor y byddai'n cynnal adolygiad o risgiau o dan gylch gwaith y Pwyllgor yn gynnar yn 2024. Nodwyd bod risg yn cael ei hadolygu'n rheolaidd ar hyn o bryd gan yr Awdurdod Dylunio Data Digidol

Dywedodd PV wrth y Pwyllgor fod yr holl risgiau'n cael eu hadolygu'n llawn o fewn y Sefydliad ar hyn o bryd ac y byddai rheoli risg yn cael ei drafod yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ionawr.

Rhoddodd y Pwyllgor **ystyriaeth i'r** fersiwn ddiweddaraf o'r Gofrestr Risg Gorfforaethol ar gyfer y risgiau o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor a chymerodd **sicrwydd** ynghylch rheoli Risgiau Corfforaethol o fewn y Sefydliad.

KRIC 7/2023.12.05

Llywodraethu Pwyllgorau

KRIC 7.1/2023.12.05

Polisiâu i'w Cymeradwyo

Nid oedd unrhyw bolisiâu i'w cymeradwyo.

KRIC 7.2/2023.12.05

Crynodeb o Ddiweddariadau Chwemisol i bolisiâu

Derbyniodd a nododd y Pwyllgor y Diweddariad Chwemisol i Bolisi Corfforaethol ac Atodiad 1 gan y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd.

Rhoddodd PV wybod i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed i ddod â'r Polisi Eiddo Deallusol i'r Pwyllgor i'w gymeradwyo. Rhagwelwyd y byddai ar yr agenda yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Mawrth 2024.

KRIC 7.3/2023.12.05

Cynllun Gwaith y Pwyllgor

Bu'r Pwyllgor yn **ystyried** ac yn **nodi** Cynllun Gwaith y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd.

KRIC 10/2023.12.05

Gweinyddiaeth i Gloi

Unrhyw fusnes arall: Dim.

Gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i roi eu hadborth ar y cyfarfod drwy e-bost i LB gan gynnwys unrhyw feysydd a weithiodd yn dda, ac unrhyw feysydd i'w gwella;

Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 5 Mawrth 2024

Daeth y cyfarfod i ben am 11:58



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd Cofnodion Cyhoeddus Heb eu Cadarnhau – 5 Rhagfyr 2023

UNCONFIRMED